Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198
Ffacs: 01978 311198

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

YSGOL PLAS COCH

Mr Osian Jones BA
***Pennaeth* Head Teacher**

E-bost/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
Gwefan/Website: https://ysgolplascoch.cymru

Mabolgampau Blwyddyn 5 a 6 – 06:07:22 (prynhawn, cychwyn am 1:15pm)

Annwyl rieni a gwarchodwyr,
Fel y gwyddoch, cynhelir mabolgampau Blwynyddoedd 5 a 6, Dydd Mercher, Gorffennaf 6ed gan gychwyn am 1:15pm, os bydd y tywydd yn caniatáu. Dyma ychydig o wybodaeth am y diwrnod:

- Mi fydd y rasus yn cychwyn am 1:15pm a wedi gorffen erbyn 3:30pm.
- Mae'r plant i ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff arferol sef crys T gwyn, siorts tywyll a trainers
- Does dim digon o gadeiriau efo ni yn yr ysgol, felly os am eistedd a wnewch chi ddod â'ch cadair eich hun gan eistedd wrth ochr y trac, nesaf at y ffens.
- **A wnewch chi os gwelwch yn dda beidio â cherdded at yr ardal y mae'r plant yn eistedd ar ochr arall y trac.**
- Os yw hi'n boeth a wnewch chi sicrhau fod gan eich plentyn gap / het a'ch bod wedi rhoi eli haul arno / arni cyn dod i'r ysgol. Os yw'r plant yn medru rhoi eli haul eu hunain, mae croeso iddynt wneud hyn. Hefyd sicrhewch fod digon o ddwr gan eich plentyn.
- Os na allwn gynnal y mabolgampau oherwydd y tywydd, byddwn yn gwneud penderfyniad cyn gynted â phosib yn y bore, gan adael i chi wybod ar yr app a'ch hysbysu pan fyddwn wedi gosod dyddiad newydd.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad,

Osian Jones